YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. HYDREF, 1951 RHIF 10.

Nodiadau'r Golygydd.

URDD Y BOBL IFAINC.

FEL y gwyddys, derbyniwyd penderfyniad Mr. Llew Hewitt ynglŷn â gweithgarwch ieuenctid yn y Cyrddau Blynyddol eleni ac nid doeth gadael unrhyw benderfyniad o'r fath i gysgu'n rhy hir cyn gweithredu arno. Y mae perygl iddo gysgu am byth. Clywsom eisoes fod pobl ifainc Trebanos wedi bwrw ati i'w drin ar unwaith a daethant i'r penderfyniad mai doeth fyddai galw cwrdd o holl weinidogion De Cymru ynghyd â dau ddirprwy o blith y do ifanc o bob eglwys, a hwnnw i'w gynnal yng Nghaerfyrddin fel canolfan cyfleus. Llongyfarchwn Drebanos am ei bywiogrwydd yn hyn o waith a hefyd am iddynt drefnu gwyliau llwyddiannus i nifer o bobl ifainc Lloegr yn ei bro. Y mae gennym ddigon o adnoddau i gynnal gwyliau cyffelyb yn ein plith ein hunain fel Cymry. Y mae nifer o'n pobl ifainc yn flaenllaw eisoes gyda mudiad y Ffermwyr Ifainc a'u gwaith yn glod iddynt. Paham felly na allwn droi peth o'r dŵr i ffrwd yr enwad? Paham na allem drefnu gŵyl ddrama yn un o neuaddau hwylus ein heglwysi, ac onid peth da fuasai cael Eisteddfod yr Undodiaid Ifainc?

Os digwydd i ryw ŵr neu wraig ifanc ddarllen hyn o apêl a theimlo fod ganddo awgrymiadau neu gynllun, ysgrifenned ataf, neu at K. R. Davies, Bekanhill, Pheasant Road, Trebanos, ger Abertawe a byddwn yn ddiolchgar iawn. Bwriedir cyhoeddi YMOFYNNYDD yr Ifanc cyn hir a llanw'r tudalennau am un tro gydag ysgrifau o waith pobl ifainc. Gwahoddaf yr ysgrifau hynny yn awr, ewch ati'n union a sicrhaf i chwi dderbyniad gwresog, waeth beth fo'ch testun na'ch barn na'ch oed.

Comiwnyddiaeth a Chrefydd. (1)

Gan y Parch. R. Islwyn Pritchard, B.A.

Ar foment wan yn fy hanes addewais agor trafodaeth yn y Cyrddau Blynyddol, a rhybuddiwyd fi y disgwylid i'r mater fod yn amserol ac yn llosg. Nid wyf felly yn ymddiheuro wrth ofyn i chwi drafod Comiwnyddiaeth a Chrefydd. Nid yn unig y mae yn fater llosg, eithr teimlwn oni thrafodir ef yn dawel ac yn ddeallus yn yr Uchelwyliau Eglwysig y gwelwn ddydd pan fo crefyddwyr yn eu dallineb yn gollwng bomiau atomig yn enw Cristionogaeth, ac o ganlyniad na fydd o bosibl neb mwyach i'w gael i drafod nac i ddeall. Yma, gallwn ni ddefnyddio rheswm a bod yn oddefgar, ac efallai y bydd trafodaeth fer yng nghyrddau blynyddol un o'r enwadau lleiaf yng Nghymru yn rhyw gymorth i achub gwareiddiad rhag cael ei ddinistrio. Ni chaniatâ amser i mi ond yn unig godi ychydig gwestiynnau i chwi eu trin yn y drafodaeth agored.

Nid yw dynion eto wedi colli eu hofn o eiriau. Bu amser pan oedd yr enw Undodiaeth yn peri dychryn, ac nid oedd raid ond galw dyn yn Undodwr i'w wneud yn wrthrych ofn a chasineb. Heddiw, Comiwnyddiaeth yw'r gair sy'n creu arswyd. Yn wir, nid wyf yn sicr na chyfrifir fi o hyn allan yn ŵr peryglus gan i mi feiddio llefaru'r gair yn gyhoeddus. Ond defnyddiwyd y gair gan yr eglwys ers canrifoedd lawer. ' Communiati '—dyna oedd yr enw a roes un sect o'r Cathariaid arnynt eu hunain yn nechrau'r unfed ganrif ar ddeg. Ystyr syml y term Comiwnyddiaeth yw cymdeithas sydd a'i chyfoeth yn eiddo cyffredin i bob aelod ohoni, cymdeithas ddi-ddosbarth lle nad oes na gwladwriaeth nac unrhyw awdurdod canolog yn hawlio teyrngarwch yr unigolyn, cymdeithas lle mae heddwch a chydweithrediad yn ffynnu rhwng ei haelodau, nid trwy rym unrhyw ddeddf, ond oherwydd bod dyn wrth reddf a natur yn fod cymdeithasol. O dderbyn y diffiniad yna, gwelir mai'r enghraifft berffeithiaf sydd gennym o gymdeithas Gomiwnyddol yw honno a ddisgrifir yn llyfr yr Actau :

> "A'r rhai a gredasant oll oedd yn yr un man, a phob peth ganddynt yn gyffredin ; a hwy a werthasant eu meddiannau a'u da ac a'u rhanasant i bawb, fel yr oedd yr eisiau ar neb. . . . A lliaws y rhai a gredasant oedd o un galon, ac un enaid ; ac ni ddywedodd neb ohonynt fod dim ar a feddai yn eiddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin. . . . Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy."

Gellid dangos hefyd fel yr oedd y Tadau Eglwysig bore yn gwrthwynebu eiddo preifat ac yn cyhoeddi mai eiddo cyffredin i

bawb oedd holl gyfoeth y ddaear. Meddai Ambrosius yn y bedwaredd ganrif wrth esbonio cyfeiriad yr Iesu at adar y nefoedd (dyfynnaf yn Saesneg gan mai dyna'r cyfieithiad a ddarllenais) :

"They (the birds) are a great example, truly, and one worthy of our faithful imitation, for if God's providence never fails to supply the fowls of Heaven, albeit they use no husbandry, and trouble nothing about the prospects of the harvest, the true cause of our want would seem to be avarice. It is for this reason that they have an abundance of suitable victuals, because they have not learnt to claim as their private and peculiar property the fruits of the earth, which have been given to them in common for their food. We have lost common property by the claims of private property. . . . The land was made for all ; why do ye rich men claim it as your private property."

Dysg Cyprian na ddylid edrych ar unrhyw un o roddion Duw fel eiddo preifat, bod y tir a'i gynnyrch yn gymaint o eiddo cyffredin pob dyn ag yw'r haul a'r cymylau, y gwyntoedd, y sêr a'r lloer. Yn y chweched ganrif ysgrifennodd Gregory y geiriau hyn yn ei ' Pastoralis Cura ' :

"We must make men clearly understand that the land which yields them income is the common porperty of all men, and for this reason the fruits of it which are brought forth are for the common welfare. It is, therefore, absurd for people to think they do no harm when they claim God's common gift of food as their private property, and that they are not robbers when they do not pass on what they have received to their neighbours. Absurd ! Why, almost as many folk die daily as they have rations locked up for use at home. When we administer any necessities to the poor we give them their own. We do not bestow our goods upon them. We do not fulfil the works of mercy ; we discharge the debt of justice. . . . What is given us by a Common God is only justly used when those who have received it use it in common."

Os darllenwch ' Socialism in Church History ' Conrad Noel, neu ' Thus Spake Prophets ' Islwyn ap Nicholas, gwelwch y brithir ysgrifeniadau'r Tadau Eglwysig â chyfeiriadau o'r fath, ac mai hwy ac nid materolwyr y ganrif ddiwethaf a biau ymadroddion megis "Lladrad yw pob eiddo". Dengys William Dale Morris yn ' The Christian Origins of Social Revolt ' fel yr ymdrechodd rhai adrannau o'r Eglwys Gristnogol ym mhob canrif i greu cymdeithasau Comiwnyddol, a diddorol yw sylwi mai yr un cyhuddiadau a ddygai eu gwrthwynebwyr yn eu herbyn ag a ddygir yn erbyn Comiwnyddion yr ugeinfed ganrif.

Gadawaf felly y cwestiwn hwn gyda chwi : A oes unrhyw wrthdaro o gwbl rhwng Comiwnyddiaeth fel egwyddor, rhwng ymdrech i greu cymdeithas ddi-eiddo, ddi-ddosbarth, lle mae popeth

yn eiddo cyffredin i bawb, a Christionogaeth? Os oes, pa fodd y mae esbonio Comiwnyddiaeth llyfr yr Actau, dysgeidiaeth y Tadau Eglwysig bore, ac ymdrechion y canrifoedd (heb anghofio am y Teulu yn Nhrefeca)?

Eithr beth am Gomiwnyddiaeth yr ugeinfed ganrif? A yw honno yn wrth-Gristnogol? Y mae Rwsia, China, a gwledydd Dwyrain Ewrop yn honni bod eu hathroniaeth wleidyddol hwy wedi ei seilio ar ddysgeidiaeth Karl Marx. A yw Marx yn wrth-grefyddol ei ddysgeidiaeth?

Ymddengys i mi mai cyfraniad mwyaf Marx i wyddor gwleidyddiaeth oedd ei gred y gellid astudio gwleidyddiaeth a chymdeithaseg yn hollol wyddonol. I'r gwyddonydd rheolir mater gan ddeddfau, a chred mai ei waith ef yw darganfod y deddfau hynny. Yn ôl Marx, rheolir cymdeithas hefyd gan ddeddfau, a gwaith yr athronydd a'r gwleidyddwr yw darganfod y deddfau sydd yn achosi pob cynnwrf a phob newid mewn cymdeithas. Nid yw'r gwyddonydd yn cydnabod gwyrthiau ym myd mater. Ni cheir y fath beth a hap a damwain mewn cymdeithas ychwaith, meddai Marx; rheolir y cyfan gan ddeddfau. Gadawaf felly ail gwestiwn gyda chwi: Os ydym yn derbyn y syniad o ddeddf yn gweithredu ym myd mater, a oes unrhyw reswm dros wrthod y syniad o gymdeithas yn cael ei rheoli gan ddeddf, ac mai ond trwy ddeall a chyd-weithio â'r deddfau hynny y gall dyn greu cymdeithas ddelfrydol?

Elfen arall bwysig yn nysgeidiaeth Marx yw'r syniad o broses yn gweithio trwy hanes. Credaf ei bod yn bwysig cofio mai Iddew oedd Marx, ac i'w dad droi yn Gristion. I'r Iddew, y mae ystyr i hanes. Trwy holl ddysgeidiaeth proffwydi'r Hen Destament rhed y breuddwyd o ddaear newydd, a'r sicrwydd fod Duw yn dwyn paradwys ddaearol i fod. Ac onid gwirionedd canolog Cristionogaeth yw bod holl alluoedd Duw yn gweithio i ddwyn Teyrnas Nefoedd i fod ar y ddaear. Perthyn Marx i draddodiad y proffwydi Iddewig. Iddo ef y mae ystyr a chynllun yn perthyn i hanes o'r dechreuad; trwy bob digwyddiad, yn achos i bob newid, y mae proses sydd yn gweithio i greu cymdeithas ddi-eiddo a di-ddosbarth. A dyma'r trydydd cwestiwn: A yw dysgeidiaeth Marx am hanes yn groes i'r syniad Cristionogol bod rhagluniaeth Duw yn gweithio trwy bob helyntoedd blin a therfysgoedd o bob rhyw i ddwyn Teyrnas Dduw i fod ar wyneb y ddaear?

Eithr onid oedd Marx yn cyhoeddi bod yn rhaid wrth chwyldro gwaedlyd ac wrth ryfel cartrefol i ddwyn y gymdeithas Gomiwnyddol i fod? Rhaid ceisio bod yn deg a'r hyn a ddywedodd ef ei hunan. Gan fod y proses hanesyddol yn gweithio trwy bopeth, yna y mae popeth yn newid yn barhaus. Nid oes dim yn aros yn ei unfan, y mae popeth yn ymgyrchu at y nod o gymdeithas ddi-ddosbarth. A chan na bydd eiddo preifat yn y gymdeithas honno, y mae perchenogion cyfoeth y ddaear yn gwrthwynebu pob newid,

yn ceisio atal hanes rhag myned yn ei flaen, am eu bod am gadw eiddo yn eu dwylo. Pe na bai ond am eu hymdrech hwy i atal proses hanes, byddai'r datblygiad tuag at y gymdeithas ddi-eiddo yn un dawel a hapus. Ni ellir rhwystro bywyd rhag mynd yn ei flaen ond am ysbaid, eithr y mae'r atalfa a roir arno am gyfnod yn peri i'r cyfnewidiadau mewn cymdeithas fod yn waedlyd ac yn greulon. Myn perchenogion eiddo preifat gadw cyfoeth y ddaear iddynt eu hunain, a hwy felly, medd Marx, sydd yn gyfrifol am ryfel dosbarth. Eithr y mae holl bwerau hanes yn gweithio yn eu herbyn, ac y mae'r oruchafiaeth yn y diwedd gyda'r tlawd a'r di-eiddo. Dyma felly y pedwerydd cwestiwn : A yw dysgeidiaeth Marx yn groes i ddysgeidiaeth apocalyptig yr Iesu fel y ceir ef er enghraifft yn y drydedd bennod ar ddeg o Farc, neu i'w eiriau a groniclir yn efengyl Luc :

"Gwyn eich byd y tlodion ; canys eiddoch chwi yw Teyrnas Dduw.

Gwae chwi y cyfoethogion ; canys derbyniasoch eich diddanwch.

Gwyn eich byd y rhai ydych yn dwyn newyn yr awrhon ; canys chwi a ddigonir.

Gwae chwi y rhai llawn ; canys chwi a ddygwch newyn."

Ni chaniatâ amser i ni hyd yn oed grybwyll un cwestiwn a ofynnir yn aml heddiw : A yw'r gwledydd Comiwnyddol wedi cefnu ar ddysgeidiaeth Marx ? A oes rhyw debygrwydd rhwng eu bywyd hwy a bywyd yr Eglwys fore ? Nid wyf am geisio ateb. Ond a chaniatau bod gwahaniaeth hanfodol rhwng eu comiwnyddiaeth hwy â chomiwnyddiaeth Marx hyd yn oed (nid wyf yn awr yn honni bod hyn yn wir nac yn anwiredd) beth a ellir ei wneud ? Ateb y Gorllewin yw, ei ymladd a bomiau atomig os bydd raid. A dyma'r cwestiynnau olaf a adawaf gyda chwi : Hyd yn oed os yw Comiwnyddiaeth y Dwyrain heddiw yn wrth-grefyddol, a oes unrhyw beth a all ei wrthsefyll oddi gerth Comiwnyddiaeth bur ? Os yw'r eglwys yn argyhoeddedig mai di-werth yw Comiwnyddiaeth Rwsia onid ei dyledswydd hi yw ffurfio ei hunan yn gymdeithas ar ddelw cymdeithas llyfr yr Actau, lle ni ddywed neb fod dim ar a fedd yn eiddo ei hunan, eithr lle mae pob peth yn gyffredin ac na bydd yr eisiau ar neb ?

Comiwnyddiaeth a Chrefydd. (2)

Ar ôl i'r Parch. Islwyn Pritchard ddirwyn ei sylwadau i ben, galwodd y llywydd ar y Parch. Islan Jones i draethu ei feddwl ar y pwnc. Dywedodd ef : "Ni chredaf fod un gwrthdrawiad rhwng cyfundrefn gomiwnyddol y Cristnogion bore ag egwyddorion Efengyl Iesu Grist ; ond gwyddom mai byr fu parhad y gyfundrefn honno, am nad oedd safon foesol, hyd yn oed aelodau o'r gyfundrefn ei hun, yn ddigon uchel i wneud llwyddiant o'r mudiad. Er i Joseph, a gyfenwid Barnabas, werthu'r tir a oedd ganddo, a dwyn yr arian yn onest i gronfa'r apostolion, fe aeth trachwant yn drech nag Ananïas : gwerthodd yntau dir, a darnguddiodd ran o'r gwerth, a phroffesu ei fod yn rhoddi'r cwbl i'r gronfa gyffredin.

Daeth Pedr i wybod am y twyll, a cheryddodd Ananïas yn llym, nid am ei fod yn cadw peth o'r gwerth yn ôl iddo'i hun, ond am iddo ddweud celwydd, nid yn unig wrth ddynion, ond wrth Dduw. "Tra yr ydoedd yn aros," meddai Pedr, "onid i ti yr oedd yn aros, ac wedi ei werthu, onid oedd yn dy feddiant di ?" Dengys hyn mai gwirfoddol ac nid gorfodol oedd comiwnyddiaeth y Cristnogion bore. Twyll, rhagrith a thrachwant hunan-geisiol a ddinistriodd gynllun delfrydol yr apostolion bore—teip Ananïas, am gael ei gyfrif yn uniawn, ac yntau yn gwybod ei fod yn anonest.

Mae'r Comiwnyddion yn medru tynnu darlun atyniadol a swynol dros ben o fywyd cymdeithas gomiwnyddol, ond un peth yw creu darlun prydferth ar bapur neu ar lafar, a pheth arall yw troi'r darlun yn sylwedd yn y byd sydd ohoni'n bresennol. Y gwir yw fod Comiwnyddiaeth Gristnogol yn gofyn safon o foesoldeb llawer uwch nag sydd wedi ffynu'n gyffredin mewn unrhyw oes hyd yn hyn, a dyna paham y mae cymaint o ymgeisiadau i'w sefydlu wedi methu. Mae Comiwnyddion brwdfrydig yn anghofio na all y gyfundrefn ragoraf sydd bosibl, greu cymdeithas ddelfrydol allan o genedl aml ei ffaeleddau a diffygiol ei hegwyddorion. A ellir dweud bod safon foesol y wlad hon heddiw yn uwch nag ydoedd hanner canrif yn ôl ? Buasai'n dda gennyf pe gallwn, yn onest, ateb y cwestiwn yna yn gadarnhaol, ond ni allaf wneud hynny. Am bob dyn gonest a chydwybodol, fe geir cant heb fod felly. Mae hiliogaeth Ananïas yn hynod o aml yn y byd o hyd.

Mae'n amheus iawn gennyf a ydyw'r Sosialaeth, a sefydlwyd yn allu llywodraethol y wlad hon, yn ddiweddar, i barhau'n hir heb ddryllio ar y creigiau. Beth yw'r perygl ?—yr un yw'r perygl yn hollol ag a ddinistriodd gomiwnyddiaeth y Cristnogion bore,—am nad yw egwyddorion moesol cymdeithas yn ddigon anhunanol i'w gwneud yn llwyddiant.

Ni chredaf ychwaith, mai peth doeth fuasai symud pob gronyn o

bryder ynghylch y dyfodol allan o fywyd dyn yn ei gyflwr presennol o ddatblygiad. Y mae'r mwyafrif ohonom yn fwy tebyg o wneud ein gwaith yn drwyadl pan fo sicrwydd ein dyfodol yn dibynnu ar hynny. Nid yn ddiystyr nac yn ofer y gosododd Rhagluniaeth bryder yn reddf ynom. Y mae ychydig bryder yn symbyliad iachus i weithgarwch a gofal : ac nid rhyw Unben gormesol a ordeiniodd fod i waith didwyll ei wobr.

Fe wnaeth y llywodraeth bresennol ymdrech ganmoladwy i godi safon byw'r bobl gyffredin. Amheus iawn yw'r canlyniadau, y mae mwy o fetio ar redegfeydd cwn a cheffylau a pheldroedio, mwy o wario ar wag-blesera ac ar chwaraeon diraddiol nag a fu erioed o'r blaen, am fod gan ddynion fwy o arian, ond nid mwy o ddoeth-ineb i wneud y defnydd iawn ohonynt. Amcanodd y llywodraeth godi'r werin yn nes at ddelfryd Utopia, Syr Thomas More, ond ofnwn mai i gyfeiriad Monte Carlo y mae hi'n cerdded yn gyflym.

Gwaith ofer yw deddfu ymhell tuhwnt i gyraeddiadau moesol a delfrydol y bobl gyffredin. Fe lawenychodd llawer ohonom yn fawr, flynyddoedd yn ôl, pan waharddodd llywodraeth America bob trafnidiaeth mewn diodydd meddwol, ond ni pharhaodd ein llawenydd yn hir. Nid oedd cyflwr moesol pobl America yn ddigon uchel i werthfawrogi diwygiad mor fawr a lleshaol, a syrthiasant yn ôl at y cwrw a'r cibau.

Y mae posibilrwydd diderfyn bron o flaen cenhedloedd y byd, ond iddynt droi eu hwynebau i'r cyfeiriad iawn, a meithrin gwerth-oedd uchaf bywyd. Oriog a siomedig yn fynych yw treigl dyn-oliaeth, ond y mae eneidiau disglair, os anaml, cymdeithas yn gynhorthwy i ni gadw ein ffydd a'n gobaith. Y mae delfryd uchel, er yn amhosibl ei sylweddoli gan gymdeithas mor siprys a'r eiddom ni yn bresennol, eto yn allu cryf i'n tynnu ymlaen ac i fyny at y nod. Yn sicr, y mae gwaith mawr cwrteithio, disgyblu a goleuo ar ddynol-ryw cyn y gellir sefydlu, ar sail gadarn, gomiwnyddiaeth wirfoddol fel patrwm y Cristnogion bore.

Harriet Martineau.

Nofelyddes, arweinyddes, awdures a gwraig ddyngarol.

Y MAE stori y wraig ryfeddol hon yn ein atgofio am ddyddiau ieuenctid a'n cariad y pryd hwnnw tuag at chwedlau tylwyth teg lle byddai Hans Anderson yn troi'r hwyaden hagr yn alarch hardd. Y gŵr cyntaf o'r teulu hwn y clywn amdano yw David Martineau, Protestant o Ffrainc a giliodd i'r wlad yma ar adeg yr erlid ar yr Huguenots yn 1688. Ymbriododd â boneddiges

o Ffrainc ac ef oedd y llawfeddyg cyntaf i ymsefydlu wrth ei waith yn Norwich, a dilynwyd ef gan eraill o'i deulu. Yr oedd tad Harriet Martineau yntau, fel ei gyndeidiau, yn ŵr addysgedig er nad oedd ond masnachwr gwlân. Deillia'r enw Martineau o'r enw ar aderyn—y 'water marten' a bu'r llun hwnnw un tro yn addurno arf-bais y teulu.

Ganwyd Harriet yn drydedd merch a'r chweched blentyn o wyth. Merch blaen, ofalus, nerfus ydoedd ac afrosgo hefyd oherwydd diffyg hunan-dyb ac yr oedd yn amddifad o ddau synnwyr, ni wyddai beth oedd na blas nac arogl. Dywedir mai dim ond unwaith y gallodd brofi cig dafad a'i gael yn flasus. Yr oedd hefyd yn fyddar o ganlyniad i anhap a ddigwyddodd iddi'n ifanc a llethwyd hi'n fawr byth wedyn gan yr orfodiaeth i ddefnyddio corn clust. Bu hyn oll o help iddi yn ei dull o fyfyrio ond fe'i gadawyd yn unig iawn a'i gorfodi i fyw'n aml yng ngwlad ei breuddwydion. Esgeuluswyd y plentyn galluog yma yn gyson gan y fam nwyfus a chlyfer oblegid nid oedd ganddi ddigon o stôr o gyd-ymdeimlad i gwrdd a'r gofynion mawr arni. Pan oedd Harriet yn ddiflas credai'r fam ei bod yn ddrwg ac annymunol ac ni chai nemor ddim tynerwch i lawenhau ei hwyneb bychan syber. Fe'i danfonwyd i'r ysgol gyda'i brodyr ar y cyntaf a llwyddodd yn eithriadol yno. Derbyniodd gyfarwyddiad trwyadl yn y clasuron, a gweithiodd yn galed fel y plant eraill oblegid dysgwyd hwy na allent ddisgwyl unrhyw waddol arall gan eu rhieni.

Gadawodd yr ysgol yn ddwy-ar-bymtheg oed ar ôl cael blwyddyn ym Mryste gyda thylwyth ei mam lle cafodd gyfleusterau ychwanegol i ddarllen a myfyrio. Carodd Harriet Martineau Undodiaeth fel ffydd ei theulu a phenderfynodd wneud ei egwyddorion uchel a'i safonau moesol cadarn yn fwy diddorol. Gyda'r bwriad yma cyhoeddodd nifer o erthyglau yn y *Monthly Repository*, erthyglau a ddaeth i gryn boblogrwydd. Y llyfr cyntaf a ddaeth a hi i sylw'r cylchoedd Undodaidd oedd *The Traditions of Palestine* a derbyniodd ei *Devotional Exercises* glod nid bychan. Dilynwyd y rhain gan *The Rioters* ystori am wneuthurwyr lês (*lace*) Derby a Nottingham, ac ar eu cais hwy ysgrifennodd un arall ar gyflogau o dan yr enw *Turnout*. Gweithiai heb ddiffygio hyd oriau mân y bore.

Bu marwolaeth ei thad, yn 1822, adeg y rhyfel â Ffrainc yn ergyd drom iddi. Yr oedd wedi gofidio llawer am gyflwr enbydus y wlad a phan fu farw gadawyd y teulu heb arian a bu raid gwasgaru'r hen aelwyd. Rhaid oedd i'r plant bellach ymlwybro gorau gallent ac wedi misoedd o ofid ac amau penderfynodd gadw'n annibynnol ar y lleill a dechrau mentro i fywyd llenyddol Llundain. Apeliodd at ei hen gyfaill, Mr. Fox, Golygydd y *Monthly Repository* am waith, a rhoes ef waith adolygu a phethau eraill cydnaws a'i

dawn iddi i'w gwneud. Clywodd beth amser yn ddiweddarach fod y Gymdeithas Undodaidd Ganolog yn cynnig gwobr am draethodau ar ddaliadau crefyddol y Catholigion, yr Iddewon a'r Mahomedamaid. Ymhen mis cwblhaodd y traethawd cyntaf ar Gatholigiaeth a chlywodd gyda llawenydd iddi ennill y wobr, ac yn ddiweddarach digwyddodd yr un peth gyda'r traethodau eraill. Llongyfarchwyd hi'n gynnes gan ei theulu a'i chyfeillion, ond fe newidiodd ei hagwedd tuag at ei hen ffydd, digwyddiad nid anghyffredin mewn oes pan oedd hen ddaliadau yn y pair.

Datblygodd Harriet Martineau y ddawn arbennig o gyfleu gwybodaeth ar lun llenyddiaeth ac mewn cyfres o draethodau a phamffledi cyflwynodd wybodaeth y credai y buasai'n dda i'r dosbarth gweithiol gael o hyd iddo. Cynhwysent wybodaeth am drethiant, y gelltydd, gêm, cyfeithiau'r tlawd, cyfreithiau'r ŷd ynghyd â gwybodaeth am gadw tŷ a theulu. Cafodd anhawster i gael cyhoeddwr i'r gwaith hwn ond cymaint oedd ei chred yn ei werth fel y daliodd ati'n ddygn. Ond o'r diwedd daeth llwyddiant pan lwyddodd Charles Dickens ei darbwyllo i ysgrifennu i'w *Household Words*.

Y chwedlau, hanesyddol a ffug a oedd fwyaf llwyddiannus, a dilynwyd hwy gan hanner cant o frasluniau bywgraffyddol ar wŷr amlwg. Ysgrifennai gyda phwrpas cadarn dros y ddynoliaeth a derbyniwyd ei gwaith yn awchus gan ennill ei le'n rhwydd. Ni feddai ar ddigon o ddychymyg i wneud nofelydd mawr ond er hynny daeth yn un o awduron nodedig ei hoes, a chyfrifid hi yn un o fenywod mwyaf arbennig ei chanrif. Mudodd i Lundain yn awr er mwyn cael bod o fewn cyrraedd i'r defnyddiau angenrheidiol ac fe aeth ei mam, gwraig hunanol ac anodd ei bodloni, i fyw ati. "Rhaid i fawredd mewn dyn neu ddynes ddioddef y beichiau," meddai Harriet Martineau, ac ni allai hithau fod wedi dwyn y beichiau onibai am ei thymer rhadlon. Ac er gwaethaf ei chlyw trwm a'r anawsterau llwyddodd i gasglu nifer fawr o gyfeillion o'i chwmpas. Yn ei thro cwrddodd â Sydney Smith, Charles Kingsley, Gladstone, Bulwer, Lytton, Carlyle, Southey ac yn ddiweddarach, Wordsworth ynghyd â llawer o bobl nodedig, a deuai gweinidogion y goron ati i gyrchu cyngor. Adwaenai Charlotte Brontë a Jane Austin ac yr oedd yn edmygydd mawr o'u gwaith.

Yn 1834 aeth i'r America a threuliodd ddwy flynedd fywiog yno. Amlygwyd diddordeb mawr ynddi am fod iddi'r fath enw da fel ysgolhaig ac awdures. Derbyniwyd hi'n wresog yn enwedig yn ardaloedd amaethyddol New England lle glaniodd y Tadau Pererin gynt. Eithr fe'i gwrthwynebwyd yn gas am iddi sefyll dros ryddid y caethweision. Gofynwyd iddi archwilio rhai materion cymdeithasol, gwleidyddol a moesol ac fe ymwelodd a thlotai, ond

oherwydd teimladau drwg pleidwyr caethwasanaeth tuag ati, wynebodd beryglon di-bendraw ac ni bu ond y dim lleiaf rhyngddi a cholli ei bywyd. Dychwelodd o'r America ac ysgrifennodd ei llyfr mawr *Society in America*, ac yn Lloegr fe ail-afaelodd yng ngwaith y mudiad yn erbyn caethwasanaeth.

Yn 1837 *derbyniwyd* Harriet Martineau gan y Frenhines Victoria a chymerodd yn anrheg ganddi y nofel *Deerhurst*. Yr oedd hi, ynghyd a'i brawd James, yn wahoddedigion anrhydeddus yng ngŵyl ysblennydd coroni'r frenhines hefyd. Yn 1839 daeth afiechyd i'w gorddiwes yn ystod taith i'r Dwyrain a bu raid iddi orffwys o'i gwaith cyhoeddus am gyfnod hir.

Teimlodd yn ofandwy ar farwolaeth y Dr. Channing, oblegid un o'i chysuron pennaf yn ystod ei hafiechyd oedd ei lythyrau caredig ef. Ysgrifennodd ddau lyfr yn 1859, y cyntaf *England and her Soldiers* i helpu achos Florence Nightingale a'r llall, *The Hour and the Man*. Derbyniwyd ei herthyglau yn llawen gan brif bapurau'r wlad a gwnaeth lawer i roi cyfeiriad i'r farn gyhoeddus. Cynigiwyd pensiwn iddi gan ei chyfeillion yn Llundain ar adeg ei salwch, ond fe'i gwrthododd er iddi werthfawrogi'r cynnig yn fawr. A hithau bellach yn araf adfer teimlodd angen am aelwyd sefydlog a phrynodd ddau erw o dir yn Ambleside, ardal brydferth ac heddychlon. Plannodd goed a blodau hen ffasiwn o gylch y lle a chododd angenrheidiau byw o'i gardd ffrwythlon. Galwodd ei thŷ yn "The Knoll" ac o'r fan gellid gweld golygfeydd hyfryd iawn. Traddododd sgyrsiau diddorol ar destunau ymarferol yn ei thŷ, a denodd i'w chwmni lawer o bobl ddiymhongar y fro. Treuliodd ugain mlynedd yma mewn iechyd ac hapusrwydd ac yn ystod yr haf gwahoddai yno lond tŷ o gyfeillion. Yr oedd Wordsworth yn un o'i chymdogion agos ac yr oedd y gyfathrach ysbrydol rhyngddynt yn agosach fyth.

Fe'i goddiweddwyd gan afiechyd unwaith eto, ac er na fedrai ysgrifennu nemor ddim daeth yn gefnogydd brwd i Hawliau Merched. Bu farw ar y 27ain o Fehefin, 1876, ond fe'i cofir o hyd fel un o feddylwyr mwyaf treiddgar ei chenhedlaeth. Gorffwys erbyn hyn yn yr Hen Gladdfa, Birmingham, lle nad oes ond gwynt y gogledd i daenu dail rhosyn ar ei bedd.

K.J.

Siwrne i'r Gymru Gymraeg.

Gan Y Parch. G. Randall Jones, M.Sc., B.D.

(*Ysgrif gan Lywydd y Gymdeithas Gyffredinol a ymddangosodd yn yr "Inquirer"*).

Fe chwarddodd y gwesteion erall yn y gwesty pan awgrymais mai'r enw cywir am y wlad oddi amgylch fuasai 'Cymru Gymraeg.' "Ydych chwi'n credu i chwi ddweud rhywbeth gwreiddiol?" gofynnodd un ohonynt. Yn fy anwybodaeth dyna oedd fy nhyb. Ymddengys i mi gamgymeryd yn fawr, oblegid yr oedd eraill, yn enwedig George Borrow wedi ei disgrifio yn yr un modd. A dyna'r unig ffordd i'w disgrifio.

Nid Cymru mo'r Gymru Gymraeg, rhan o Gymru yn unig ydyw a'r rhan leiaf adnabyddus efallai. Y mae Gogledd Cymru cyn belled i lawr ag Aberystwyth yn faes chwarae gwŷr ar eu gwyliau o gylchoedd Caerhirfryn a Chanoldir Lloegr. Canolfan diwydianol yw De-Ddwyrain Cymru lle ceir llawer o ddynion dwad o Loegr. Rhwng y ddau y mae Cymru Gymraeg, ac yng nghanol y Gymru Gymraeg yma y mae darn eang sy'n dwyn yr enw "Y Smotyn Du". Nid y golygfeydd a roes iddo'r enw oblegid y mae'r golygfeydd yn gwneud i chwi ddal eich hanadl gan eu hardded. Term diwinyddol yw'r Smotyn Du ac fe'i defnyddiwyd gan gefnogwyr rhonc y Gristnogaeth draddodiadol ac uniongred er mwyn dynodi'r ffaith mai caer yr Undodiaid ydyw.

Y mae yma bedair ar ddeg o eglwysi Undodaidd yng Ngheredigion heblaw'r rheiny sydd dros yr Afon Teifi yn Sir Gaerfyrddin. Ac y mae ganddynt eu coleg diwinyddol eu hunain i ddarpar gweinidogion at eu gwaith—y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Cefais y fraint o dreulio wyth niwrnod ar eu hyd ymhlith yr eglwysi yma'n ddiweddar; ymwelais â'r rhan fwyaf a deuthum i gyffyrddiad a'u pobl. Nid ar frys yr anghofiaf y croeso calon-agored a charedig a estynnwyd i'm gwraig a minnau. Galwai rhywrai'n feunyddiol yn y gwesty gyda'i gar yn barod i'n dwyn i ryw gapel gwledig, anghysbell neu amaethdy neu ryw lannerch ddymunol. Ni theithiasom gymaint o dir erioed o'r blaen mewn cyn lleied o amser.

Fy ngalwad cyntaf oedd Cyfarfod Sefydlu'r Parch. J. Marles Thomas yn Llandysul. Ac y mae Cwrdd Sefydlu yn y Gymru Gymraeg yn rhywbeth gwerth ei gofio. Dechreuodd y cyfarfod arbennig hwn am ddau y prynhawn a dechreuodd y Capel eang lanw am 12 o'r gloch, ac erbyn amser cychwyn yr oedd y lle dan ei

sang. Yr oedd tua tri chant o bobl tu fewn i'r adeilad a darlledwyd y gwasanaeth cyfan trwy gyfrwng Sion Ceg i bedwar cant arall a wrandawai yn yr Ysgoldy neu dan wenau'r haul yn yr awyr agored. Yr oedd pedwar ar ddeg o siaradwyr—a minnau'n drydydd ar ddeg !—ac yr oedd yn tynnu am bump pan ddaethom i ben. Derbyniodd pawb ei de yn ei dro yn yr Ysgoldy cyfagos, ac ar ôl hynny aethom i'r gwasanaeth pellach yn yr Eglwys Annibynnol a fenthyciwyd am y tro oherwydd yr oedd yn amlwg na fuasai digon o le i'r tyrfaoedd yn yr Eglwys Undodaidd.

Ar y Sul dilynol cefais y fraint o bregethu mewn dau Gwrdd Arbennig—un yng Nghapel y Groes ar gyfer dosbarth gogleddol y Smotyn Du a'r llall yn Llwynrhydowen i'r dosbarth deheuol. Yn y ddau le cafwyd cynulleidfaoedd mawr, naws cyfeillgar a thwym-galon, canu hwyliog a rhoes craffder amlwg y bobl awel iach o ysbrydiaeth ac adfywiad i'r holl weithredoedd.

Y peth cyntaf sy'n taro ymwelydd o Sais ag eglwysi'r Gymru Gymraeg yw'r ffaith mai mewn iaith gwbl ddieithr y cynhelir y gwasanaethau. Ond fe genir yr emynau Cymraeg gyda'r fath hwyl hyd oni chodir dyn gan yr ysbryd tu ôl i'r geiriau hyd yn oed pan fo'r geiriau eu hunain yn annealladwy iddo. Felly hefyd y gweddïau. Ymhellach, newidiai'r gweddïwyr o'r Saesneg i'r Gymraeg yn achlysurol—a hynny, mi debygwn, o barch i Lywydd y Gymdeithas. Dywedir wrthyf mai gwaith anodd yw hynny os ceisir ei wneud heb dorri ar rediad y weddi, ond fe'i gwnaethpwyd yn berffaith gan alluogi'r ymwelydd o Sais i ganlyn bras-gynllun y gwasanaeth.

Pwynt arall o ddiddordeb i mi oedd adeiladwaith yr Eglwysi Undodaidd Cymreig. Y maent yn adeiladau hardd, yn syml ac eto'n urddasol. Y mae trefniant arbennig mewn rhai ohonynt, trefniant na welais mohono mewn unlle arall—sef ' croes ' adeilad ar y chwith i'r pulpud a gauir yn gyffredin gan ddrws-plyg neu betisiwn ond a agorir ar achlysuron arbennig i roi cryn ugain y cant a mwy o eisteddleoedd.

Ni cheir ystafell i'r gweinidog ond fe ddaw i mewn i'r Capel gan esgyn yn syth i'r pulpud. Y mae'r gynulleidfa'n crynhoi yn yr awyr agored a gwelir y merched yn cerdded i mewn gyntaf gan eistedd yn y canol ac ar y dde ac fe'u dilynir gan y dynion sy'n eistedd ar y chwith wrth wynebu'r pulpud. Dywedir wrthyf fod rhai pobl fentrus yn mynnu torri ar y cwstwm, ac yn y cwrdd nos Sul gwelais rai dynion yn eistedd yn y canol, wrth ochr eu gwragedd mae'n debyg. Ond fe eisteddodd y mwyafrif mawr o'r dynion, yn briod a sengl yn eu lle arbennig ar y llaw chwith.

Gwelir y diaconiaid yn eistedd o flaen y pulpud ac fe gyhoeddir yr emyn gan y gweinidog gan roi'r rhif a darllen nifer o benillion. Yna fe saif y codwr canu i arwain canu'r gynulleidfa—nid oes côr, ac yn wir nid oes angen amdano gan fod y gynulleidfa i gyd yn gôr. Dyma ganu cynulleidfaol ar ei orau a rhaid gweld y llawenydd sy'n llifo i wynebau gwŷr a gwragedd wrth ganu'r geiriau eneiniol, cyn ei gredu. A dyna'r olygfa a bery hwyaf ar fy nghof—gweld cynulleidfa o Gymry yn canu emyn Cymraeg.

Y mae'r gwasanaeth i gyd yn syml—digon o emynau, Darlleniad Ysgrythurol, Gweddi a Phregeth. Ymwelydd o weinidog sy'n darllen ac arall sy'n gweddïo. Ond efallai na ddigwydd y rhannu yma ar y gwasanaeth ond ar achlysuron arbennig. Yn gyffredin, mae'n sicr, ceir pregeth Gymraeg ond yn ystod fy ymweliad Saesneg ydoedd.

Dywedasai'r Parch. S. E. Bowen, ysgrifennydd egnïol y Gymdeithas Gymraeg wrthyf "eu bod yn ysgolheigion yn ei ardaloedd ef" ac y gallent fy nilyn yn hawdd pe siaradwn yn y Saesneg. Y mae gennyf bob rheswm i gredu ei fod yn llygad ei le.

Deuthum yn ôl o'r Gymru Gymraeg gydag argyhoeddiad y dylasem wybod mwy am y gwaith da a wneir gan ein Gweinidogion Cymreig a'u cynulleidfaoedd. Y mae'r cynulleidfaoedd yma ar wahan i raddau ; maent ar wasgar mewn lleoedd gwledig ac yn ôl safonau'r Sais yn wael eu gwaddol, ac o dan reidrwydd mewn llawer achos i rannu'r gweinidog rhwng dwy a thair cynulleidfa. Eithr y mae'r cynulleidfaoedd yma'n gryf o ran ystorfeydd ysbrydol, a da fuasai i lawer cynulleidfa Saesneg pe gallent ganlyn esiampl eu brwdfrydedd, ac fe droes eu teyrngarwch i'r ffordd Undodaidd o fyw y Smotyn Du yn Ardd i'r Arglwydd. (*Cyf.*).

Priodas.

Yng Nghapel Parc-y-felfed, Caerfyrddin ddydd Mawrth, Medi 18fed unwyd mewn glân briodas ANNIE GWENDOLINE DAVIES, merch Mr. a Mrs. E. T. Evans, Clifton, Pontshaen a JOHN VINCENT WILLIAMS, Caerfyrddin. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Jacob Davies (ewythr), yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Emrys Jones (Heol Awst), Hopkin Evans (Llanstephan) a Mr. Elwyn Davies (brawd). Hir oes a phob llwyddaint.

Pryddest y Goron yn Llanrwst.

Gan J. Islan Jones.

Pan daenodd y sôn gynt fod y bardd, Robert Browning, yn bwriadu priodi'r farddes, Elizabeth Barrett, fe ddywedodd un llenor (Leigh Hunt, os wyf yn cofio'n iawn), "Gobeithio bod y ddau yn deall ei gilydd—nid oes neb arall yn deall un o'r ddau." Dywedais innau ar ôl darllen pryddest y Goron yn Llanrwst eleni, "Gobeithio bod y bardd ieuanc coronog yn ei ddeall ei hun, yn sicr, nid llawer o rai eraill sydd yn ei ddeall" ; cofiais hefyd am ddau Sais yn dadlau unwaith, ac un ohonynt yn dweud wrth y llall, "*Speak plain mon, you're talkin' in conundrums.*" Y mae'r beirdd newydd yn arbenigwyr yn y grefft honno.

Fel un o ddarllenwyr cyffredin Cyfansoddiadau'r Eisteddfod addefaf na fedraf ddehongli llawer o'r ffigurau ymadrodd ac awgrymiadau niwlog a geir yn y bryddest. Ni chlywais erioed am arlunydd da yn tynnu un llinell neu ddwy ar gynfas a'i werthu fel darlun, gan ofyn i'r prynwr lanw'r manylion yn ôl ei chwaeth ei hun.

Beth a ellir ei wneud o'r pennill hwn ?

"Dychmygais innau wedyn yn y tes
Fod Duw yn hongian ar y distiau llwch,
A'i enau'n toddi'n greithiau wrth ei fodd
Ym Melin y Cwm ar noswyl haf."

Beth yw'r ystyr, a beth am y chwaeth ? Ai athrylith uwchlaw amgyffred y dyn cyffredin a geir yma, neu ynteu feiddgarwch cableddus ? Y mae llawer o bethau tebyg i hyn trwy'r bryddest i gyd yn peri i ni ofyn o ddifrif, ' Ai dyma gynnyrch gorau'r Eisteddfod Genedlaethol ' ?

Fe honnir bod newydd-deb yn nodwedd arbennig o'r bryddest hon : dywedodd y Pregethwr gynt "Nid oes dim newydd dan yr haul," ond wrth gwrs, nid oedd ef wedi gweld y pethau rhyfedd ac ofnadwy a esgor ein beirdd ieuainc arnynt !

Y mae oes dyn yn rhy fer, ac amser y rhan fwyaf ohonom yn rhy brin i dreulio ysbeidiau hir yn ceisio amgyffred a dehongli barddniaeth yr oes hon, ac yn y diwedd, rhoi i fyny'r ymdrech yn siomedig, fel y dyn anffodus, a fu am oriau mewn ystafell hollol dywyll, yn chwilio am het ddu nad oedd yno o gwbl.

Marwgof.

Mai 8fed, yn 102, Durham Road, Stockton-on-Tees, yn 71 mlwydd oed, bu farw EDWARD AUBREY MARTIN, priod Martha Martin, a thad y Parchedig Aubrey J. Martin. Ganwyd ef yn Llansamlet, Morgannwg, a threuliodd y rhan helaethaf o'i oes yng Nghasllwchwr. Prentisiwyd ef yn deiliwr, ond gadawodd y grefft honno am y glofeydd. Cymerodd ddiddordeb mawr mewn materion cymdeithasol a gwleidyddol yn ieuanc ; ymunodd â'r Blaid Lafur Annibynnol a gweithiodd yn egnïol dros egwyddorion Sosialaeth. Ni allai ef fod yn dawel o ganfod anghyfiawnder a thrais ; brwydrodd dros hawliau ei gyd-weithwyr, a bu'n rhaid iddo ddioddef dros ei egwyddorion. Profodd wg y perchenogion ; gwyddai beth oedd cael ei wrthod mewn pwll ar ôl pwll oherwydd yr ystyrid ef yn ŵr a goleddai syniadau peryglus. Pan dorrodd y rhyfel mawr cyntaf allan, fe'i gwrthwynebodd â'i holl egni. Carcharwyd ef, ac ar ddiwedd y rhyfel nid oedd bwll glo a'i cyflogai. Dychwelodd yntau at ei hen grefft o deilwra, eithr arhosodd ei galon a'i gydymdeimlad gyda'r glowyr. Nid gŵr cyfyng ei ddiddordebau ydoedd ef. Bu'n ysgrifennydd Cangen Gorseinon o'r Blaid Lafur Annibynnol ; dadleuai'n gryf dros ymreolaeth i Gymru ; darllenai yn eang ac yn feddylgar. Collodd crefydd uniongred ei gafael arno'n gynnar, a chanfu ei gartref ysbrydol gyda'r Undodiaid. Nid oedd dim a'i cadwai o'r Tŷ Cwrdd yn Abertawe ar nos Sul, a mawr oedd ei sel a'i ddiddordeb ym mhopeth perthynol i'r Capel.

Yn 1948 symudodd ef a'i briod i gartref eu mab yn Stockton. Trwy lafur ac egni y Parchedig A. J. Martin, sefydlwyd Cymdeithas Gymraeg gref ar lannau Tees, ac yr oedd yntau wrth ei fodd yng nghwmni ei gyd-Gymry. Dioddefodd lawer oddi wrth y gwynegon yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd. Gwellhaodd beth, ond daeth clefyd y galon. Bu farw yn dawel wedi oes o frwydro dros gyfiawnder cymdeithasol a brawdoliaeth dyn.

Bu'r angladd y Sadwrn canlynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Crematorium yn Darlington gan y Parchedig A. E. Mobbs, Middlesbrough. Darllenwyd yr emynau "Bydd myrdd o ryfeddodau" ac "O fryniau Caersalem" a rhannau o'r 8fed bennod o'r Rhufeiniaid yn Gymraeg gan Mrs. Evans (brodor o Fagillt) a Mr. Hugh D. Jones, Abertawe. Daearwyd y llwch ym mynwent Penuel, Casllwchwr, ar yr 16 o Fehefin, a chynhaliwyd gwasanaeth byr a'r Parchedigion G. Morton Thomas, Penuel ; J. S. Williams, Tumble a Noel James, Capel y Groes yn gwasanaethu. Yno daeth tri o'i hen gyfeillion a fuasai'n wrthwynebwyr cydwybodol gydag ef yn ystod rhyfel 1914—18.

Gwerinwr, heddychwr, Cymro diwylliedig a chariadus. Cafodd y gwroldeb i wrthsefyll grym y rhyfelwyr ac yntau yn briod ac yn dad. Gellid clywed tinc o falchder yn ei lais pan soniai am brofiadau dyddiau'r carchar ar erledigaeth. Ni siomwyd ac ni surwyd ef gan dymhestloedd bywyd, eithr daethant â rhyw diriondeb ac addfwynder i'w gymeriad. Glynodd i'r diwedd wrth ei argyhoeddiadau crefyddol a chymdeithasol, ac yr oedd ei fywyd yn bortread o'r gwynfyd sydd yn eiddo'r tangnefeddwyr a'r rhai a erlidir o achos cyfiawnder.

Newyddion yr Enwad.

LLWYDDIANT.—Da gennym gyhoeddi llwyddiant Miss Rosina Evans, ail ferch Mr. a Mrs. Evans, Gelli, Felinfach. Ar ôl cwrs eithriadol lwyddiannus yn y Coleg enillodd y radd o N.D.D.H. Llongyfarch cynnes a phob dymuniad am ddyfodol disglair.

RHAGLEN RADIO AR "YR HEN DY CWRDD.—Darlledir y rhaglen yma Nos Sul, Hydref 7fed am 9.30—10.15 p.m.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

CYNHELIR

Y CYRDDAU CHWARTEROL

— YNG —

NGHAPEL CILIAU AERON

MAWRTH a MERCHER, HYDREF 30 a 31, 1951

Trefn y Cyfarfodydd :

Hwyr Mawrth am 6.30—Pregethir gan y Parchn. ISLWYN PRITCHARD, B.A. a NOEL JAMES, B.A.

Bore Mercher am 11 a.m.—Pwyllgor y Gymdeithas.

Prynhawn Mercher am 2 p.m.—Pregethir gan y Parchn. J. MARLES THOMAS, M.A. a T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

Hwyr Mercher am 6 p.m.—Pregethir gan y Parchn. D. JACOB DAVIES, B.A. a'r Prifathro J. D. JONES, B.A., B.D.

Dros yr Eglwys,

LEWIS WILLIAMS.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.